Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ardal natur ar gyfer dysgu yn yr awyr agored



**Ym mis Mawrth 2021 derbyniodd Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt £4,955 gan Grŵp Gweithredu Lleol Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe i ddatblygu ardal natur ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, y gellid ei defnyddio bob dydd fel ardal astudio ar gyfer y plant.**

Mae'r ysgol wedi nodi bod plant, pan fyddant gartref, yn treulio amser y tu mewn yn gynyddol yn gwylio'r teledu, yn chwarae gemau cyfrifiadur ac yn treulio amser ar ffonau, etc.

Mae'r ysgol yn credu mewn pwysigrwydd cysylltu plant â'r awyr agored ac mae am i'w disgyblion ofalu am yr amgylchedd, ac roedd y prosiect hwn yn bwriadu gwneud y defnydd gorau o wagle presennol drwy ddatblygu profiad addysg unigryw ar gyfer y plant.

Mae llawer o waith wedi cael ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd anodd o gyfyngiadau COVID.

Yn ystod y 15 mis diwethaf, mae disgyblion, athrawon, gwirfoddolwyr yn y gymuned a rhieni wedi cyfuno sgiliau ac adnoddau i greu hafan bywyd gwyllt gyda blodau gwyllt brodorol, gwelyau uchel o lysiau treftadaeth, gwestai pryfed a bocsys adar, a chyfleusterau casglu dŵr.Mae'r prosiect wedi ceisio hyrwyddo effaith tymor hir a pharhaus ar yr amgylchedd, lleihau ôl troed carbon yr ardal leol a diogelu a gwella'r adnoddau naturiol a bioamrywiaeth sydd ar gael.

Gwnaeth gwirfoddolwyr a staff blannu perthi a choed, gosod llwybrau i wneud yr ardal yn hygyrch, adeiladu gwelyau uchel i'r disgyblion eu defnyddio a chreu system casglu dŵr sy'n arbed dros 1,000 litr o ddŵr y flwyddyn.

Yn ystod tymor braf y gwanwyn 2022, mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen eisoes wedi bod yn brysur yn yr ardal natur, yn hau hadau ac eginblanhigion. Mae garddwyr ifanc brwdfrydig o'r clybiau garddio i ddisgyblion yn tyfu betys coch, moron, moron enfys a blodau'r haul. Roedd disgyblion hefyd yn yr ardal i ddysgu am waith tîm, datrys problemau a chynefinoedd.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen bellach yn cynnal arolygon rheolaidd i asesu bioamrywiaeth yn yr ardal. Mae'r ardal yn cynnig ardal dysgu awyr agored bwrpasol lle gall y plant ddysgu sut i ofalu am y byd a datblygu dealltwriaeth o natur a chynaliadwyedd.

Meddai'r Pennaeth, John Owen:
***"Mae'r ardal natur wedi bod yn ffordd wych o ddatblygu tir yr ysgol. Mae wedi dod â'r gymuned ynghyd yn dilyn cyfnod anodd iawn. Mae wedi cefnogi ein gwersi dysgu yn yr awyr agored yn yr ysgol, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu cyffrous go iawn. Os yw addysg yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar addysgu'r genhedlaeth nesaf i ofalu am yr amgylchedd a'r byd rhagorol rydyn ni'n rhan ohono, yna mae angen i blant gysylltu â'r amgylchedd mewn ffordd ystyrlon.***

***Caiff yr ardal natur ei defnyddio gan grwpiau o blant ar y mwyafrif o ddiwrnodau. Mae'n bleser gweld y plant yn rhyngweithio â hi; yn gofalu am yr eginblanhigyn lleiaf, yn chwilio am fân-filod, yn dysgu am bwysigrwydd peillwyr, ac wrth gwrs yn cael llawer o hwyl.***

***Rydym yn gobeithio datblygu ein cornel cyffrous o fioamrywiaeth ymhellach!"***

**Mae'r disgyblion yn frwdfrydig:**
***"Rwy'n caru bod yr ardal natur yn gyffrous iawn nawr. Rydyn ni'n gallu gwneud llawer o bethau gwych newydd. Dwi bob amser yn helpu i ddyfrio'r planhigion newydd a gofalu amdanynt. Mae llysiau a ffrwythau'n tyfu."*** (Tanny)

***"Rydyn ni'n casglu'r dŵr o do y sied, mae'n cael ei storio yn ein casgen ddŵr. Rydyn ni'n rhoi'r dŵr yn ein caniau dŵr ac yna'n dyfrio'r planhigion."*** (Oli)

***"Yn ein hardal natur mae'r blodau a'r coed sydd gennym yn hardd iawn. Rwy'n dwlu chwarae yn yr ardal, mae'n ddifyr ac yn lliwgar iawn. Rwy'n mwynhau gwrando ar straeon o gwmpas y boncyff tân a thwymo malws melys."*** (Flo)

***"Rwy'n caru palu yn yr ardal natur, rwy'n gallu palu'n ddwfn pan mae angen i ni blannu coed. Rwy'n gobeithio y gallwn ni helpu'r anifeiliaid drwy gynnig lle diogel iddyn nhw i fyw."*** (George)

**Sylw rhiant:**
***"Mae wedi bod yn bleser gwylio'r ardal yn newid cymaint dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer o goed, planhigion a blodau wedi cael eu hychwanegu i greu ardal wyllt hyfryd. Mae'r ardal yn llawer mwy buddiol i fywyd gwyllt a'r plant, sy'n cael dysgu ynddi. Rwy'n teimlo'n lwcus iawn fy mod i wedi bod yn cymryd rhan wrth helpu'r ardal i dyfu. Mae'n teimlo fel y gall yr ardal ddatblygu'n dda - mae llawer mwy y gallwn ni ei wneud. Rwy'n edrych ymlaen at weld afalau ar y coed, arolygon adar, jam cartref." (Karen, mam yn yr ysgol).***

***Gan edrych i'r dyfodol, bydd yr ysgol yn parhau i ddatblygu'r ardal natur er budd fflora a ffawna lleol, a disgyblion y dyfodol.***

***Gall camau bach achub y blaned...***

